

Cynllunio gwers sydd â ffocws iaith



Trafodwch

Meddyliwch am un Maes Dysgu a Phrofiad, yn y Cynradd neu'r Uwchradd, a thrafodwch beth sy'n gwneud gwers dda.

Gallwch drafod gwers ddysgoch chi neu wers a welwyd yn cael ei haddysgu.

Rhannwch eich syniadau a lluniwch restr ar gyfer adrodd yn ôl.



Trafodwch ...

Mae cynllunio ffocws iaith clir yn berthnasol i wersi leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'n unig.

Ydych chi'n cytuno?




Mae modd cynllunio ffocws iaith i unrhyw wers. Beth am ystyried?

- Pa batrwm iaith sy'n cefnogi nod y wers (mewn unrhyw Faes Dysgu a Phrofiad), e.e. geirfa allweddol; patrwm cwestiwn ac ateb; dechreuadau brawddegau; testun estynedig, a.y.y.b.?
- Oes ffocws iaith i bob tasg?
- Beth fydd adeiladwaith y wers (h.y. i gyrraedd y nod terfynol)?
- Sut byddwch chi'n gwahaniaethu o fewn y dosbarth?



Pa fethodolegau caffael a datblygu iaith fydd fwyaf addas i'r wers?

Ydych chi'n cofio rhain?




Drilio




Ymarfer ar lafar (yn unigol)




Tasg wrando



Gwaith pêr



Grŵp o dri



Gwaith grŵp



Amser canu



Gwaith ar y byrddau gwyn



Tasg ysgrifennu



Tasg ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth i'r Portffolio

Pa fethodolegau caffael a datblygu iaith fydd fwyaf addas i'r wers?

- Pa weithgareddau cynhesu fyddwch chi'n eu cynllunio?
- Oes tasgau gwrando / llafar / darllen / ysgrifennu? Pa rai fyddwch chi'n eu cynllunio?
- Pa eirfa / batrymau iaith fyddwch chi'n eu drilio? Sut?
- Pa gemau iaith fedrwch chi eu chwarae?
- Oes angen mat iaith i'w cefnogi?



Trafodwch ...

Faint ohonoch chi sydd wedi cynllunio gwers mewn unrhyw Faes Dysgu a Phrofiad (ac eithrio Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Cyfathrebu) sydd â ffocws iaith clir? Rhannwch.



Cynllun Gwers

Blwyddyn:

Cynradd Dysgu Sylfaen: cyfrwng Cymraeg

Gwybodaeth flaenorol:

- Gallu cyfrif o 1-100 yn Gymraeg.
- Deall nodweddion sgwâr cant.
- Adnabod patrwm cwestiwn.
- Deall sut mae adio a thynnu.

Adnoddau:

- Sgwâr cant i bob dysgwr.
- Gwrthrychau yn y dosbarth neu deganau.
- Disiau poced sy'n cynnwys yr arddodiaid sydd ar y mat iaith.
- Mat iaith.

Maes Dysgu a Phrofiad:

Mathemateg a Rhifedd

Ffocws iaith:

Adolygu'r arddodiaid wrth ddysgu rhifau sgwâr cant

- uwchben
- ar ôl
- cyn
- o flaen
- o dan
- tu ôl
- Patrwm cwestiwn: Pa rif sydd uwchben 8?
- Treigladd meddal ar ôl 'Pa' wrth ofyn cwestiwn e.e. Pa rif sydd cyn rhif 20?
- Cwestiynau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau eraill:
- Faint ydy __ adio __?
- Faint ydy __ tynnu __?

Nod y wers: Dysgu am rifau sgwâr 100 gan ddefnyddio arddodiaid a defnyddio'r sgwâr 100 i adio a thynnu.

Gweithgareddau addysgu a dysgu :

- Drilio'r arddodiaid drwy ganu neu symud.
- Defnyddio gwrthrychau gwahanol yn y dosbarth e.e. 'cloc' a gofyn i'r dysgwyr e.e. Ble mae'r cloc? Mae'r cloc uwchben y silff lyfrau. Hefyd, mae modd defnyddio teganau a'u cuddio o gwmpas y dosbarth cyn y wers a gofyn iddynt ble ydynt er mwyn ymarfer yr arddodiaid.
- Defnyddio'r mat iaith a'r dis poced sy'n cynnwys yr arddodiaid i ymarfer y cwestiwn ac ateb e.e. Pa rif sydd ar ôl 25? Mae rhif 30 ar ôl 25.
- Ymarfer cwestiynau mathemategol fel dosbarth yn gyntaf e.e. Faint ydy 19 adio 2? Defnyddio'r sgwâr cant ar y bwrdd gwyn er mwyn dod o hyd i'r ateb cyn cwblhau'r tasgau mewn grwpiau.



Sgwâr cant

Cwestiwn: Pa rif sydd _____ 25?

Pa rif sydd **cyn** 25?

Ateb: Mae rhif 20 **cyn** 25.

uwchben

		1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
1	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	
2	2	4	6	8	10	12	14	16	18	20	
3	3	6	9	12	15	18	21	24	27	30	
4	4	8	12	16	20	24	28	32	36	40	
5	5	10	15	20	25	30	35	40	45	50	
6	6	12	18	24	30	36	42	48	54	60	
7	7	14	21	28	35	42	49	56	63	70	
8	8	16	24	32	40	48	56	64	72	80	
9	9	18	27	36	45	54	63	72	81	90	
10	10	20	30	40	50	60	70	80	90	100	

cyn/
o flaen

ar ôl

o dan

tu ôl i'r
seren

Cwestiynau
mathemategol:



Faint ydy ___ adio ___?



Faint ydy ___ tynnu ___?

Cynllun Gwers

Blwyddyn:

Cynradd – Blwyddyn 2 - Cyfrwng Cymraeg

Maes Dysgu a Phrofiad:

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Nod y wers:

Suddo neu arnofio?

Gwybodaeth flaenorol:

- Bod gwrthrychau wedi cael eu gwneud o ddeunyddiau gwahanol.
- Bod gwrthrychau'n gallu bod yn drwm neu'n ysgafn.
- Medru defnyddio ansoddeiriau wrth ddisgrifio.

Adnoddau:

- Gwrthrychau gwahanol, e.e. carreg fach, marblen, potel blastig, papur, brigyn, band elastig, llwy, ceiniog, siswrn, clip papur, gwelltyn, pensil, deilen
- Twba dŵr (yn ddelfrydol gydag ochrau tryloyw)

Geirfa allweddol:

- Ansoddeiriau, e.e. meddal, caled, llyfn, garw, ysgafn, trwm, a.y.y.b.
- suddo
- arnofio

Ffocws iaith:

Cyflwyniad: Beth ydy hwn / hon?

Wrth ragfynegi:

Ydy'r _____ yn mynd i suddo / arnofio?

Patrwm ateb: Ydy / Nac ydy.

Patrwm i'w osgoi: Ie / Na

Wrth drafod canlyniadau:

Ydy'r _____ yn arnofio / suddo?

Patrwm ateb:

Ydy, mae'r _____ yn arnofio.

Nac ydy, dydy'r _____ ddim yn arnofio.

Patrwm i'w osgoi: Ie / Na

Gweithgareddau:

- Bydd y gwrthrychau'n cael eu rhoi mewn blwch teimlo. Bydd cyfle iddynt deimlo'r gwrthrych, ei ddisgrifio (defnyddio ansoddeiriau addas, e.e. meddal, caled, llyfn, garw, ysgafn, trwm, a.y.y.b.) cyn dyfalu beth ydy'r gwrthrych (ffordd dda i ennyn diddordeb).
- Bydd gan bob aelod o'r grŵp wrthrych. Bydd angen sicrhau bod pawb yn gwybod beth ydy enw pob gwrthrych.
- Bydd cyfle i ragfynegi – Ydy'r _____ yn mynd i arnofio?
- Bydd cyfle i wneud yr arbrawf drwy roi'r gwrthrychau yn y dŵr.
- Ffocws iaith: Ydy'r _____ yn arnofio / suddo? Ydy / Nac ydy
- Trafodir eu canfyddiadau drwy ystyried "Pam?"



Cynllun Gwers

Blwyddyn: 4 Cynradd: cyfrwng Cymraeg	Maes Dysgu a Phrofiad: Mathemateg a Rhifedd	Nod y wers: Dysgu nodweddion siapiau 2D gan ddefnyddio'r cwestiynau 'Sawl' / 'Faint'.
Gwybodaeth flaenorol: - Enwi siapiau 2D - Deall bod siâp yn medru bod yn enw unigol benywaidd neu wrywaidd.	Geiriau allweddol: ymyl cornel ochr Ffocws iaith: - Dysgu'r gwahaniaeth rhwng y ddau gwestiwn sef 'Faint' a 'Sawl' wrth ddysgu mwy am siapiau 2D. - Mae angen defnyddio 'sawl' ar ddechrau'r cwestiwn wrth gyfeirio at enwau unigol e.e. Sawl ymyl sydd gyda'r triongl? - Mae angen defnyddio 'faint' ar ddechrau'r cwestiwn wrth gyfeirio at enwau lluosog e.e. Faint o gorneli sydd gyda'r seren? - Cofiwch: Mae treigladd meddal ar ôl yr arddodiad 'o'.	Gweithgareddau addysgu a dysgu: - Tasg adolygu: defnyddio cardiau fflach neu luniau ar gyflwyniad Powerpoint er mwyn drilio enwau'r siapiau. - Chwarae chwap gan ddefnyddio lluniau siapiau gwahanol ar y bwrdd gwyn a gwasgwr pryfaid. Bydd y dysgwr sy'n dewis y siâp cywir yn gyntaf yn ennill. - Drilio'r cwestiynau gan ddefnyddio pêl, e.e. Sawl dosbarth sydd yn yr ysgol? Faint o gadeiriau sydd yn y dosbarth? Sawl ymyl sydd gyda'r triongl? Faint o gorneli sydd gyda'r seren? - Gwaith pêr/ grŵp: Defnyddio Mat Iaith a dis poced gyda'r siapiau ynddynt i ymarfer gofyn 'Sawl...?/Faint...?'.
Adnoddau: - Cardiau fflach neu gyflwyniad Powerpoint. - Gwasgiwr pryfaid. - Pêl. - Disiau poced yn cynnwys lluniau o'r siapiau sydd ar y Mat Iaith. - Mat Iaith.		

Siapiau 2D

Sawl...?

Sawl **cornel** sydd gyda'r
.....?

Bydd angen defnyddio
'Sawl..?' wrth ddefnyddio
enwau **unigol**.

Faint...?

Faint o **g**orneli sydd gyda'r
.....?

Bydd angen defnyddio 'Faint
o..?' wrth ddefnyddio enwau
lluosog.

Cofiwch am y treigladd meddal ar ôl 'o'

Geirfa allweddol

Unigol

Lluosog

cornel
(b)

corneli

ochr
(b)

ochrau


ymyl
(b/g)

ymylon

Sgwâr




Trionggl




Pentagon




Hechsagon



Heptagon



Octagon



Seren



Petryal



Cynllun Gwers

Blwyddyn: 7 Uwchradd: Cyfrwng Cymraeg	Maes Dysgu a Phrofiad: Y Celfyddydau Mynegiannol	Nod y Wers: Mynegi barn am waith Nick Holly
Gwybodaeth Flaenorol: - Artistiaid Cymraeg - Trafod arddulliau paentio	Geirfa allweddol: Ansoddeiriau, e.e. tywyll, diflas, anobeithiol /gobeithiol, trist, anhapus, prysur, a.y.y.b. Geirfa bwnc benodol, e.e. lliw, gofod, arlliw / tôn, siâp, llinellau, arddull / ffurf, gwead, effaith, cydbwysedd, cyferbyniad, awyrgylch, emosiwn, empathi, a.y.y.b. Ffocws iaith: Defnyddio ymadroddion mynegi barn wrth ddisgrifio gwaith Nick Holly, e.e. Yn fy marn i, mae ... / Dw i'n credu / Dw i'n teimlo, a.y.y.b. (gweler Mat Iaith)	Gweithgareddau: - Cyflwyniad: Rhoddir 3 llun o waith arlunwyr o Gymru (Kyffin Williams, Rhiannon Roberts, Nick Holly) a chasgliad o ansoddeiriau i'r dysgwyr. Mewn grŵp bydd angen dewis y 5 ansoddair mwyaf addas i ddisgrifio pob llun. - Gwaith grŵp: dewis yr un mwyaf apelgar gan roi rhesymau i gyfiawnhau eu dewis. Bydd rhaid adrodd yn ôl gan ddefnyddio ymadroddion mynegi barn. - Gwaith unigol: ysgrifennu disgrifiad o'r llun o waith Nick Holly. Bydd Mat Iaith ar gael fel cymorth. - Clo: cymharu eu disgrifiadau.
Adnoddau: - enghreifftiau o waith: Kyffin Williams, Nick Holly, Rhiannon Roberts - Mat Iaith		



Mat Iaith

Trafod gwaith Nick Holly

Geirfa

- lliw
- arlliw
- tôn
- siâp
- llinellau
- gofod
- effaith
- arddull
- ffurf
- gwead
- cydbwysedd
- cyferbyniad
- awyrgylch
- emosiwn



Ymadroddion mynegi barn

- Yn fy marn i...
- Dw i'n / Rydw i'n credu...
- Dw i'n / Rydw i'n meddwl ...
- Dw i'n / Rydw i'n teimlo...
- Credaf...
- Teimlaf....
- Mae'r arlunydd ...
- Mae'r lliw
- achos/ oherwydd ...

Gwaith pêr:

Mewn parau, yn seiliedig ar Faes Dysgu a Phrofiad neu addysg gynradd / uwchradd:

- cynlluniwch wers sydd â ffocws iaith clir;
- cofiwch adolygu patrymau iaith a ddysgwyd yn flaenorol;
- cofiwch ddefnyddio methodolegau caffael iaith, e.e. drilio, canu, tasg wrando, chwarae gêm(au), gwaith pêr, gwaith grŵp, a.y.y.b.
- Oes angen Mat Iaith? Os oes angen, cynlluniwch Fat Iaith addas a defnyddiol.



Cynllun Gwers

Blwyddyn:	Maes Dysgu a Phrofiad:	Nod y wers:
Gwybodaeth flaenorol:	Geirfa allweddol:	Gweithgareddau:
Adnoddau:	Ffocws iaith:	

